YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 4] EBRILL, 1921. [PRIS 3c.

CYNHWYSIAD.

AR ADEN FFYDD
Y TYWYDD
YSPRYDOLIAETH
MIS AR GRWYDR
TEULU O BRYDYDDION
A
DAN STON
PRIODASAU
MARWGOFION
MANION AC HANESION

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS' Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

Mourning Cards . . .

Neatly executed.

A Speciality in Portrait Printing.

Samples sent on application.

J. D. LEWIS, YMOFYNYDD OFFICE, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL 1921. [CYF. XXI. RHIF 4.

AR ADEN FFYDD.

O DDUW, RHO IN' DY HEDD.

Ah! When shall all men's good
Be each man's rule, and universal Peace
Lie like a shaft of light across the land?

TENNYSON.

Dduw'r dychryniadau, yr Hwn a osodi
Y gwynt iti'n gerbyd, a'r mellt iti'n gledd;
Rho in' dy gariad, a gwel ein trueni,
Ac yn dy diriondeb rho inni dy Hedd.

Dduw Hollalluog! Di'r unig Ddialydd,
Sy'n gwylied, sy'n barnu, er nad o fewn clyw;
O paid a'n dedfrydu yn awr ein enbydrwydd—
Rho in' dy Hedd yn ein dydd, o Dduw.

Dduw Holl-drugarog! Mae'r byd wedi cefnu
Ar ei ddyledswydd, a'i chwalu yn friw;
Na chaed dy lid yn ei fâr ein dychrynu—
Rho in' dy Hedd yn ein dydd, o Dduw.

Dduw pob Cyfiawnder! Mae dyn wedi'th herio,
Eto'n dragwyddol mae'th lais wrth y llyw;
Celwydd a chamwedd ni chant gennyt drigo,—
Rho in' dy Hedd yn ein dydd, o Dduw!

Dduw'r Holl-dosturi! Ai nid yw yn llefain
Waed y dieuog yn ffrwd goch ei lliw?
Gwel acw'r cyni, y tristwch, yr ochain;—
Rho in' dy Hedd yn ein dydd, o Dduw.

Dduw yr Holl-ddoeth; Trwy dy dân sydd yn puro,
Adfer ei ryddid i bob dyn byw;
Dy Deyrnas trwy gaddug du, tew, sy'n prysuro;
Ti roddi dy Hedd yn dy ddydd, o Dduw.

(Cyf. S.N.S. Medi, 1918.) H. F. CHORLEY.

Y TYWYDD.

"Mae gan i, ac mae gan lawer
Gloc ar fur i gadw amser;
Mae gan Moses Pant y Meysydd
Un yn tŷ i gadw tywydd."

Y MAE darllen hanes diddan "Sarnicol" ar grwydr yn chwilio am yr haf wedi fy nghymell i ysgrifennu ar y tywydd.

Diddorol yw meddwl y medr dyn fynd at yr haf, os na ddaw'r haf ato ef, ac fod yr haul yn dysgleirio rywle o hyd, ar waethaf pob gauaf. Y mae tywydd yn beth pwysig ym mywyd pob dyn, Deallodd Toricelli, disgybl Galileo, hyn yn foreu, ac efe wnaeth yr hin-fynegydd cyntaf erioed. Dyna gyfrinach cloc newydd cegin oreu Pant y Meysydd.

Dywedir mai un o hynodion yr Ynysoedd Prydeinig i'r tramorwr ydyw eu tywydd cyfnewidiol. Y mae hyn yn wir yn arbenig am Gymru—gwlad y mynyddoedd. Gwlawia yn aml mewn un cwm, tra mewn cwm arall ceir hindda at y cynhauaf. Edrych hyn fel pe buasai *wirepulling* yn mynd ymlaen yn swyddfa'r Gwlaw, ond medd-ai'r hen ddihareb, "Tri pheth sy'n anodd 'nabod—dyn, derwen a diwrnod."

Am fod y diwrnod felly y mae gwymon wrth dalcen tŷ, potel ddwr ar silff ffenestr, a hin-fynegydd ar fur, yn bethau mor bwysig. Nid *luxuries* mohonynt, ond angenrheidiau bywyd. Y mae "cadw tywydd" cyn bwysiced a "chadw amser."

"Os bydd y tywydd yn caniatau," "os bydd amser yn caniatau," dyna ddau "os" mawr amaethwyr. Fodd bynag, y mae dyn o'r cyfnodau boreuaf hyd heddyw wedi bod yn astudiwr manwl o'r tywydd. Y mae wedi astudio ei arwyddion, wedi cyhoeddi dyfodiad y tymhorau fel pe baent yn *Royal visitors*; wedi canu a barddoni iddynt. Ac nid heb achos, oblegid ar y tywydd y dibyna ein cyn-hauafau, ein iechyd, ein llwyddiant, a llawer iawn o'n hapusrwydd ar y ddaear. Pa un ai gwyn, neu felyn, neu ddu o groen ydym ddi-byna ar heuliau fuont yn llewyrchu ym moreu'r cread.

I raddau helaeth, hinsawdd (*climate*) sy'n penderfynu cymeriad cenedl neu lwyth. Y mae gan "dywydd" air i ddweyd ar y mater pa un ai dioglyd a gwanaidd, neu weithgar ac egniol fydd trigolion gwlad.

Y mae rhai meddylwyr yn ceisio profi mai mater o *soil*, bwyd ac hinsawdd yw'r cymeriad dynol a'i orchestion. Sylwant fod trigolion Ynysoedd Môr y De, ac ereill, ydynt yn byw mewn gwledydd twym, yn amddifad o gelf, gwyddor, trefn amaethyddol, cyndeithasol, a llywodraethol. Y rheswm am hyn yw fod eu bwyd, sef ffrwythau, yn tyfu'n wyllt, fel y dywedir, ac felly nid oes angen llafurio am dano. "Eu bara sydd sicr." Hefyd nid oes angen llawer o ym-geledd ar y corff mewn ffurf o ddillad.

Ond y canlyniad yw mai dynion diog, di-nerth, yw'r rhai sy'n byw lle mae "yn haf o hyd." Y maent yn laru ar yr haf fel yr ydym ni yn laru ar y gwlaw.

Cartref y gwyddorau a'r celfyddydau ydyw gogledd Ewrob, a Phrydain, a gwledydd oerach. Hwy biau'r llong, yr agerbeiriant, a'r aeroplên. Allan o honynt y cwyd y morwr, y milwr, a'r darganfyddwr. Dyma'r cenhedloedd sydd yn gwneyd y byd yn gymydogaeth, ac yn plygu pwerau natur at eu dibenion.

Er hyn gellir nodi allan eithriadau na ffitiant i fewn i'r ddamcaniaeth hon o fywyd. Beth am Oes Aur Groeg gynt? Oni flodeuodd hi mewn hinsawdd dwym? Beth am hen wareiddiadau Asia? Oni chodasant hwy i dir uchel ar waethaf y tês?

Fodd bynag, yn sicr mae gan "dywydd" ddylanwad mawr ar fywyd dyn a'i gymeriad. Ond pe gorffenai'r stori gyda'r bennod hon, ni fyddai un ystyr iddi. Brawddegau gwag fyddai'r oll. Ond y rhan gyntaf o'r hanes ydyw. Y mae dyn, lle bynag y bo, yn anadlu mewn dwy hinsawdd. Medr greu tywydd iddo'i hun, hollol annhebyg i'r tywydd oddiallan.

> "Pan fo'r gwyntoedd yn chwythu,
> A'r storm yn taranu
> A'i chorn i groesawu
> Y Gauaf.
> Mae nefoedd fy mynwes."

"Fy mynwes," dyna'r gyfrinach. Pan ddaw gauafol nôs trwy'r dyffryn diengwn bob un i gornel ei fwthyn i oleuo canwyll neu lusern. Pocrwn y tân, a thynnwn y cadeiriau oddiamgylch, a heriwn y storom a'r nôs. Er cilio o gawr y dydd, mae gwres y tân a'r cwmni yn aros. Ond gwres o'r haul mawr yw gwres y tân—gwres y *Solar System* wedi ei ystorio mewn glô yng nghrombil y ddaear, i gael ei ryddhau *wrth ei losgi* er twymo cenedlaethau'r dyfodol. Darn o'r haf ydyw wedi ei adael ar ol gan Dduw i lonni gauafau dyn. Ond yn y ffaith wyddonol hon ceir awgrym am rywbeth mwy. Pan daeno nôs arall ei chysgodion prudd dros feddwl a chalon dyn, gan gymylu'r dyfodol, tybed na ellir syrthio'n ol ar wres a goleu y gorffenol, a chynneu tân, a chreu tymhor mewnol, siriol, i ni ein hunain. Onid yw'n bosibl cynneu tân atcof fel y gwnaeth Newman yn ei bryder a'i afiechyd ar fôr y Canoldir gynt—

> "Hyd yma'th gariad gês, ac eto câf
> I'm harwain dros
> Bob craig ac afon, cors a rhos, nes âf
> Trwy'r dywell nôs;
> A chyda'r wawr o fewn i'r nefol wlad
> Caf weled gwên anwyliaid Tŷ fy Nhad."

Onid yw Canwyll Gobaith yn ein llaw, ac onid oes modd ei goleuo hi? Pan gura'r corwynt ar y ffenestr, a phan "blyg y deri fel

mieri" dan ei ruthr, onid yw'n gysur clywed rhywun yn dweyd y bydd yn ddiwrnod braf yfory? Y mae i Fywyd ei hunan ei Yfory, pryd gyda Tennyson y gobeithiwn y bydd ryw ychydig yn fwyneiddiach i bawb.

"O dim a wyddom am Ei ffyrdd,
Ond credu wnaf mai da a fydd,
Ryw ddydd ymhell—i bawb ryw ddydd
Y trŷ pob gaua'n wanwyn gwyrdd."

"Dim ond brwynen yw dyn, ond y mae yn frwynen fedr feddwl." meddai Pascal. Saif yn agored nid yn unig i dymhorau natur ond hefyd i dymhorau Duw. Disgyn arno ryw ddylanwad cyfrin, ryw heulwen, ryw wanwyn ffres, o fyd glanach a thynerach na'r naturiol. Y mae'r tân sy'n ei ymenydd yn llosgi trwy sofl y materol yn ol at ei gynefin. Nid yw erioed wedi boddloni bod yn garcharor. Tŷr allan yn fflam ddeifiol ym mywyd bardd, merthyr, diwygiwr, dysgawdwr, ac apostol. Fel hyn yr ystoria Duw ei heulwen ar gyfer y dyfodol o hyd, fel na phallo ei gynhauafau ar y ddaear. Trwyddynt y ceidw Ef y Tânau Dwyfol i losgi ar allorau'r llawr, ac y crea oddiamgylch iddynt ryw gymaint o naws y wlad.

"Lle mae'r awel fyth yn dyner,
Lle mae'r wybren fyth yn glir."

YSPRYDOLIAETH.

MAE yn syndod fel mae'r camgyfieithad o eiriau Paul yn ei ail Epistol at Timotheus (3: 16) wedi helpu i gadw ac i gynnal y syniad poblogaidd am y Beibl. Fel y gŵyr y darllenydd edrychir ar y Beibl yn gyffredin fel pe byddai yn ddim ond un llyfr, a hwnnw yn gyfwerth o'i ddechreu i'w ddiwedd—oll yn ysprydoledig, ac oll yn anffaeledig. Fe goleddir syniad cyffelyb, mae'n debyg, gan y Mohametaniaid am ei Feibl ef—yr Alcoran.

Yn lle bod yn ddim ond un llyfr, mae y Beibl yn llyfr cyfansawdd. Cynwysa ddwy ran—yr Hen Destament a'r Testament Newydd. Gellir cyfrif yr Hen Destament fel llyfrgell yr Iddew. A gadael allan yr Apocrypha mae yndd o 39 o lyfrau. Yn y Testament Newydd (yr hwn nid yw yr Iddew yn ei dderbyn na'i gydnabod, er mai iddo ef yr ydym yn ddyledus am dano) y mae 27 o lyfrau, ac yn eu plith y mae'r Epistol at Timotheus, ac yn hwnnw y ceir yr adnod gry-

bwylledig—"Yr holl ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysprydoliaeth Duw," &c.

Tebyg i hyn yr ysgrifennodd y Deon Burgon, yn 1861—"Y Beibl nid yw yn ddim amgen na llais yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd. Mae pob llyfr o hono, pob pennod o hono, pob adnod o hono (yn mha le yr ydym i aros?), pob llythyren o hono, yn adroddiad uniongyrchol o eiriau'r Goruchaf. Y Beibl nid yw yn ddim amgen na Gair Duw, nid rhyw ran o hono yn fwy, a rhan arall yn llai, ond yr oll o hono yn gyffelyb yn adroddiad o eiriau yr Hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd, heb ddiffyg, heb gyfeiliornad."

Darllener y dyfyniad uchod yn fanwl ac yn ofalus, gyda phob ystyriaeth, nes cael gafael, os yn bosibl, yn yr hyn oedd yn meddwl yr ysgrifenydd; ac ar ol hynny, darllener geiriau Paul fel y maent yn y Cyfieithad Diwygiedig Saesneg—"Every scripture inspired of God is also *profitable*," &c. Bydd cystal, fe allai, inni roddi'r adnod yn y Gymraeg. Fel hyn y bydd y darlleniad newydd—"Pob ysgrythyr ysprydoledig gan Dduw, mae yn *fuddiol* hefyd (1) i athrawiaethu; (2) i argyhoeddi; (3) i geryddu; (4) i hyfforddi mewn cyfiawnder; fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda."

Cawn yma wahaniaeth dirfawr. Nid "yr holl ysgrythyr" yn ysprydoledig sydd gennym yn awr, ond "pob ysgrythyr" sydd yn dwyn y pedwar nod o *fuddioldeb* a grybwyllir.

Onid oes yna fyd o oleuni gwerthfawr wedi ei daflu gan yr adnod fel y mae yn ei gwisg newydd? Nid yw yn ateb cystal feallai i ofynion y gyffes a'r gredo, fel yr oedd y Deon Burgon yn eu dal; ond fel ag y mae, credwn ei bod yn gyson a holl ofynion rheswm a deall da. Gesyd ger ein bron nodau eglur wrth y rhai y gallwn bwyso a mesur gwerth yr hyn a ddarllenwn, ac felly i ddeall beth i'w dderbyn a pha beth i'w wrthod.

"A pha beth y deuaf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgrymaf ger bron yr uchel Dduw? A ddeuaf fi ger ei fron ef a phoeth-offrymau, ac a dyniewaid? A foddlonir yr Arglwydd a miloedd o feheryn, neu a myrddiwn o ffrydiau olew? A roddaf fi fy nghyntaf-anedig dros fy anwiredd, ffrwyth fy nghroth dros bechod fy enaid? Dangosodd Efe i ti, ddyn, beth sydd dda; A pha beth a gais yr Arglwydd gennyt, ond gwneuthur barn a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw."

B.C.D.

Y FFORDD.—Pa fodd y caf fod yn sicr o'r ffordd? Ni welwn ni ond y tywyllwch yn parhau. Beth a wnaf fi i foddloni Duw ac i achub fy enaid? O ddyn fe ddangosodd Duw i ti beth sydd dda. Fe roes i ti ganwyll ynot i ddangos y ffordd. Yn gyntaf gwrando ar dy gydwybod oddifewn. Beth mae hi yn ei geisio ddywedyd wrthyt? Pwy bynnag wyt, mae cloch yn canu o'r tu fewn i ti. Oni wrandewi ar y llais sydd ynot dy hunan, pa fodd y gwrandewi di ar gynghorion oddiallan?—MORGAN LLWYD (1619—1659).

MIS AR GRWYDR.

[Gan SARNICOL.]

[Parhad o tudalen 42.]

Yr oedd goleu-dai glannau Llydaw eisioes yn y golwg, ac awn ninnau i lawr, gan eu gadael ar y chwith, gan wneud am enau yr afon Loire, magwrfa llongwyr hyf a mentrus ers miloedd o flynyddoedd; lle cafodd Iwl Cæsar ofid mawr i adeiladu llynges i'w gorthrechu pan yn ceisio concro Gâl a Phrydain. Codwyd llong-lywydd Llydewig, gwr mor debyg i Gymro ag y gallai neb fyth fod o wlad estronol. Gwyddai ryw ddwsin neu ddau o dermau morwrol yn Saesneg, a thyna i gyd. Nid oedd y capten yn meddwl am siarad dim ond Saesneg ag ef; ac atebai yntau *yes* neu *no*, fel amrywiaeth yn hytrach nag er mwyn dweyd *ie* a *nage* rhesymol. Ond yr oedd yn deall digon i arwain y llong yn ddiogel i enau y Loire, St. Nazaire, os wyf yn cofio yn iawn.

Ar frecwast gofynnais iddo a oedd yn deall Cymraeg neu Lydaweg. Dim ond ychydig eiriau o'r "Frythoneg," meddai, ond yr oedd ei fam a'i dad yn siarad yr hen iaith yn rhigl. Yr un stori geir yn nhrefydd glannau môr Cymru, onide? Iaith y Celt yn cael ei boddi dan ddiluw celfyddyd a masnach. Yn ei dro, gofynnai yntau beth oeddwn i, ac i ble yr oeddwn yn mynd. Atebais mai athraw oeddwn yn cymryd taith fel hyn er mwyn pleser ac iechyd. 'Yr ydych yn cael arian mawr ynte?' gofynnai. 'Na, cyflog gymharol fechan yw'; meddwn innau. 'Mae gennyf frawd yn ysgolfeistr,' meddai yntau, 'ac y mae yn cael cyflog fawr iawn, 400 ffranc y mis, hynny yw, rhwng £80 a £90 y flwyddyn o'n harian ni! Ac yr oeddwn yn credu erbyn hyn fy mod yn wr cyfoethog! Cymhariaethol yw popeth, onide?

Wrth enau y Loire, dyma beilot arall yn dod i gymryd lle y Llydawr. Ac ym min yr hwyr, mewn tywydd teg a hyfryd, hwyliasom i fyny'r afon ardderchog hon, a'i glannau coediog wedi eu britho gan dai a'u hwynebau'n wynion, a'u pennau'n rhuddgoch, ac ambell i blas hynafol yn edrych ar ei arlun yn y dyfroedd tawel islaw. Cyn hir gwelem gromen Eglwys Gadeiriol Nantes yn codi draw yn y Gorllewin, a chyda'r nôs dyma ni yn hwylio'n araf i mewn i ganol y dref. Yr oedd yr afon yn llawn llongau, a'r *wharves* yn llawn glô a pheiriannau i'w drin a'i drafod. 'Roedd mor llychlyd a du a'r un porthladd yn Neheudir Cymru. Bu cryn fwstwr a gwaeddi ar fwrdd y llong ac ar y lan, troi olwynion, tynnu rhaffau, bloeddio a rhegu mewn Saesneg a Ffrangeg—a Jones o Aberporth yng nghanol y cyfan yn gollwng allan ambell i lw cadarn Cymraeg!

Nid oedd yn ddrwg gennyf gael mynd i gysgu y noson honno heb i Dafydd Jones siglo fy nghryd; er y rhaid addef i mi gysgu yn rhagorol yn ystod y fordaith, peth nad oeddwn wedi ei wneud er's rhai misoedd cyn hynny.

Yn Nantes yr oedd yn haf, awyr las, a chymylau ysgeifn gwlanog yn nofio drosti'n esmwyth o flaen awel fwyn o'r de-orllewin. Bob bore ar ol brecwast aem allan i'r dre, o'r twrw a'r llwch glo oedd yn gysylltiedig a dadlwytho'r llong. Ac yn y dref fynychaf y caem ginio a chwpaned o dê. Yr oedd popeth yn ddrud i'w gymharu a'r hyn oedd pan fum yn Ffrainc cyn y rhyfel. Er engraifft talem chwe ffranc am *omelette* i ddau. Ond wedi ystyried y *rate of exchange*, 60 ffranc yn gyfartal i 25s., a chwe ffranc o ganlyniad yn hanner coron,

nid oedd yn ddrwg iawn. I'r Ffrancod eu hunain, fodd bynnag yr oedd pethau yn resynus o ddrud, yn fwy na thair gwaith yr hyn oeddynt cyn y rhyfel. A chyda llaw, mor debyg i'w gilydd ydym ni ym Mhrydain a phobl y rhan hon o Ffrainc. Pan yn cael cinio allan yn yr awyr agored o flaen yr *Hotel* sylwn wrth Powell mor debyg oedd y *waiter* i efrydydd gwledig newydd basio i mewn i Goleg Caerfyrddin neu'r Bala. Yr oedd ei wyneb mor ffres a chartrefol a Chymreig fel mai naturiol fyddai ei gyfarch yn hen iaith Gwalia.

Gwag a di-dwrw iawn oedd yr olwg ar Nantes. Ychydig iawn o wŷr a welid ar ei strydoedd cerigog, hynafol. Dim ond gwragedd yn eu du, ac ychydig iawn o blant. Yn ystod y rhyfel buasai y dref yn llawn o filwyr Americanaidd. Cwrddasom a thri neu bedwar o'n cefndyr dros y Werydd; yr oeddynt yno yn edrych ar ol y claddfeydd, ac yn preserfio cyrff rhai o'r Americanwyr a syrthiasant yn y rhyfel, er eu dwyn yn ol adref. Y mae Nantes yn agos o faint Caerdydd, ac fel dinas glan Taf, a'i hanes yn mynd yn ol i amser y Rhufeiniaid. Y mae yn lle da am fasnach, gan ei fod yn sefyll, fel cynifer o ddinasoedd mawr masnachol y byd, ar afon fordwyadwy, mewn dyffryn eang a ffrwythlon, a rhyw ddeng-milltir-ar-hugain o'r môr, ac felly yn dra diogel yn amser rhyfel. Ei wir borthladd yw St. Nazaire, wrth enau'r afon, lle y mae *docks* helaeth, a mannau i adeiladu ag adgyweirio llongau.

Ond nid gweled y ddinas a'r wlad oedd fy amcan yma yn gymaint ag yfed yr awelon, mwynhau yr awyrgylch yn dawel, a gorfoleddu yng ngwenau'r haul. Dywedodd Chesterton yn un o'i lyfrau nad cymaint o fwyniant iddo ef eistedd mewn modur a gweled y caeau yn gwibio heibio iddo, ag eistedd mewn cae a gweled y cerbydau yn rhuthro heibio. Ac yn yr un yspryd yr oeddwn innau wedi myned ar grwydr y tro hwn. Hyfryd iawn oedd eistedd o flaen *Cafe* yn y prynhawn yn sipian cwpaned o dê neu goffi, a gwylio'r cymylau hafaidd uwchben, a'r dinasyddion, gynifer ag oedd i'w gweled yn prysuro heibio, gan barablu iaith dyner, ogleisiol, a hanner ddeallem yn unig gan gyflymder parabl y bobl. Yma y buom am yn agos i wythnos; heb wneud fawr ond crwydro ychydig, bwyta, yfed, treio ein Ffrangeg yn y mân siopau, i brynu carden, neu becyn o fyglys, neu rywbeth dibwys arall. A dywedai gwragedd y siopau fod ein Ffrangeg yn ardderchog. Rhai da am fusnes yw'r Ffrancod, yn enwedig y gwragedd!

Ac ar fore dydd Sul dyma ni eto yn codi angor, ac yn hwylio i lawr y Loire yn ddi-lwyth, ar ein ffordd i'r Yspaen. Dyma'r diwrnod hyfrytaf eto. 'Roedd yr haul yn chwerthin o'r glas di-gwmwl, y wlad oddeutu yn ardderchog yn lifrau llawn yr haf, a chlychau'r eglwysi yn canu'n swynol a heddychol ar ddwy lan yr afon.

Cyn hir, yr oeddem ar y môr agored, yr awel yn ffres, y tonnau yn ymdreiglo yn hwylus iawn, a'r llong hithau, yn awr yn ddilwyth, yn ymrolio gyda'r tonnau. 'Yn awr,' meddai Powell, 'am bwl da o selni'r môr!' Ond cawd cinio, a thê bach, a thê mawr, heb argoel fod y gelyn yn dod. A daeth ein ffydd yn ol, a ffydd yw hanner y peth, os nad y cyfan o hono wrth ymladd yn erbyn clefyd fel selni'r môr. Diwrnod rhagorol oedd y Sul hwn wrth groesi'r Bae-o-Bisci. Drannoeth yn y bore gwelwn fynyddau Spaen, o liw copr yn y niwl glas-lwyd, pell. Ac yn raddol, raddol, dynesasom at enau yr afon Nirvion, lle mae harbwr ardderchog iawn. Yu fuan iawn daeth y llong-lywydd i'r bwrdd, a thyna ni yn gwneud am yr harbwr. Erioed ni welais olygfa fwy ysplenydd. Ar bob tu inni cyfodai mynyddau uchel ag ysgythrog, a thês yr haul yn gorwedd yn ddiog a chyfoethog ar eu llethrau amryliw. Ar y chwith yr oedd rhesi tai, a gwestai Al Gorta, a'r traeth yn ddu a gwyn gan ymwelwyr a phebyll ymolchi.

Ar y dde 'roedd y mynydd yn uwch, a phlasau gwychion yma a thraw ar ei lethrau, a'r haul yn taro ar eu ffenestri a'u muriau claerwynion. Yr oedd rhywun wedi adeiladu tŷ ar goryn eitha'r mynydd. Yr oedd mwy o wawr rudd-goch Hydref ar y coed nag yn Ffrainc, a mwy fyth nag yng Nghymru lawog, laith. Cyn hir dyma ni dan bont fawr Las Arenas, drwy Portugalete, ac i St. Nicolas, rhyw dair neu bedair milltir i fyny'r afon; ac yno yr angorwyd. Erbyn hyn yr oedd yn boeth iawn, a'r haul yn bwrw ei belydrau yn ddidrugaredd ar fwrdd y llong. Yn fuan taenwyd *awnings* dros bont y llong; er hynny, rhaid oedd diosg gymaint a fedrem o'r hyn oedd am danom; ac nid oedd dim i wneud ond gorwedd ar ein hyd yn y cysgod, a 'llyfedu' fel defaid. Hyd yn hyn yr oeddem wedi cadw cotiau mawr am danom gyda'r nôs, a thrwy'r dydd pan ar y môr, ond yn awr, dyma hinsawdd Eden, heb eisiau pilyn ond er gwylder. Yr oedd yr hin yn fy adgofio am ambell i ddiwrnod poeth iawn tua chanol Awst yn Sir Aberteifi, a'r tês yn chware ar y bryniau cwsg, a'r nydden lwyd-boiffor yn gorwedd yn haenau diog draw ar fynyddau Sir Gaer; a'r cwn a'u tafodau allan yn y cysgod, a'r da yn gyrru'n blyfied i gysgod y gwern yn yr afon ar waelod y cwm.

Ddydd ar ol dydd yr oedd niwlen ddiog haf yn gorwedd ar fynwes y mynyddau, a'r haul yn bwrw ei belydrau caruaidd i lawr. Wedi'r diwrnod cyntaf ni fu'r gwres yn llethol. Treuliais amryw ddiwrnodau heb fynd i'r lan o gwbl, gan ei bod yn llawer glanach a mwy cyfforddus ar y llong.

Mae gwahaniaeth mawr rhwng porthladd yn Ffrainc ac un yn yr Yspaen. Pan ddel swyddogion yr *excise* i fwrdd y llong yn Ffrainc, neu yn Lloegr, o ran hynny, gwnant eu gwaith yn fanwl a gonest, ond eto yn foesgar. Yn yr Yspaen, mae 'darn o gil dwrn' yn mynd ymhell iawn. Rhydd y capten goron ym mhalf yr archwiliwr swyddogol—ac ni chaiff fawr ffwdan o'i achos wedin. Yr oedd glô yn fwy gwerthfawr nag arian yno. Rhaid chwilio am sachaid o'r deiamwnt du i ŵr swyddogol y llywodraeth er fod y llong wedi dod yn wag o Ffrainc. Ysgubai'r swyddog a lupyn bychan bob llwchyn yn *hold* y llong, a chludent ef ymaith gyda'r gofal mwyaf. Un diwrnod daeth dwy neu dair o wragedd i'r bwrdd i bigo'r lludw a'r cols a daflesid allan o'r ffwrnes, oblegid yn afon Bilbao ni chaniateir taflu dim dros y bwrdd, rhag llanw ei gwely. Pan welwyd y gwragedd gan Jones, o Aberporth, arllwysodd arnynt raeadr o regfeydd hanner Cymraeg a Saesneg; ond gan nas deallent ef, ni wnaeth yr Yspaenesau ond gwenu'n ddiniwed arno drwy lwch y lludw, a myned ymlaen yn ddiwyd gyda'u gwaith. A chiliodd y llew o Aberporth i'w ffau, fel gwg y gaeaf rhuadwy dan chwerthiniad haul y gwanwyn, wedi ei lwyr orchfygu! Wrth gwrs, yr oedd y gwragedd wedi dod a photeleidiau o win i'r peirianwyr yn dâl am y fraint o chwilio'r gemau duon yn y lludw.

Nid oedd yr un o honom yn medru Yspaeneg, ond buan iawn y daethum i feddu agos ddigon o'r iaith i ofyn am fwyd a diod, ac i godi tocynnau rheilffordd. Gallem ei darllen yn weddol rwydd gan ei bod mor debyg i'r Lladin a'r Ffrangeg.

Mae'r rhan hon o'r Yspaen yn ddiddorol iawn i Gymro, gan fod ei safle ieithyddol mor debyg i dref yng Nghymru. Y Basque yw'r iaith frodorol, a medr bron bawb ei siarad; ond Yspaeneg yw iaith y gwestai, y swyddfeydd, a'r papurau newyddion. Arferid credu fod y Basque yn perthyn yn agos i'r llwyth Celtaidd o ieithoedd; ond nid oes fawr debygolrwydd ynddynt, mewn geiriau nag mewn cystrawen. Tebycach o lawer yw i iaith y Mongoliaid, medd rhai cymwys i farnu. Nid oes iddi fawr lenyddiaeth ysgrifenedig, ac nid wyf yn deall y dysgir hi yn yr ysgolion. Fel y Cymry, myn y brodorion mai hi yw'r iaith oreu, a hynaf yn y byd;

ac mai hi yw iaith Paradwys ! Ereill a ddywedant i'r diafol ymgymeryd a'i dysgu unwaith, a chan nad oedd wedi meistroli ond tri gair ar ol saith mlynedd o lafur caled, rhoes yr Hen Nic y gwaith i fyny fel *bad job*.

(*Pw barhau.*)

TEULU O BRYDYDDION.

Y mae gan bob aderyn ei lais, ac fe amrywia hwnnw mewn swyn o gerdd felys yr eos i lawr hyd at grawc aflafar y fran. Nid yw yn bosibl i aderyn a berthyno i deulu *unmusical* ddyfod yn gantor da. Yng nghôr y goedwig, y *llinach* y disgynnir o honi y sydd o bwys ; oddiwrth un a hano o deulu'r llinos fe ddisgwylir llawer ; ar y llaw arall, ni wiw i un a berthyno i lwyth y bioden obeithio byth am dorri ffugwr ar lwyfan eisteddfod y wig.

Yn yr un modd, gellir dweyd am bob dyn, ar na fo yn fud, y medr daro rhyw fath o nodau lleisiol, yn meddu ar ansawdd fwy neu lai cerddorol. Yma drachefn, y mae y teulu yr hennir o hono yn bwysig iawn. Anaml y clywir am neb yn rhagori fel datgeiniad oni fu rhai o'i hynafiaid hefyd, yn eu dydd, yn nodedig am ganu. Y mae 'llais canu' yn rhedeg mewn teuluoedd.

Ym mhellach, y mae yn debygol y gallai pob dyn, pes mynnai, brydyddu, neu o leiaf drefnu geiriau yn benillion o ryw fath ; ond a oes gan rai yn perthyn i deuluoedd arbennig fwy o rwyddineb prydyddol nag eraill? Ni allaf ateb yr holiad hwn ; ond carwn nodi un teulu y gwn i am dano, fel enghraifft, e dybiaf, o'i awen Gymreig yn rhedeg i lawr o genhedlaeth i genhedlaeth.

Heb fod ymhell o Gwrt Newydd, y mae yna amaethdy hynafol a breswylir gan yr un llinach er ys blynyddau meithion. Gwr a'i fryd ar y fferm, a'i ofal yn fawr am ei dir a'i dda ydyw cynrychiolydd y teulu yno yn bresennol ; ond ar brydiau, er ei holl brysurdeb, fe ddaw arno rhyw 'when' am brydyddu. Awen ysgafn a chwareus sydd ganddo, ac er mai yn y mesurau rhydd y cân fynychaf, gall lunio englyn twt hefyd, fel hwn o'i eiddo :

'Rhoer wythawr i wr weithio ;—arall
Oriau llon i rodio ; [wyth,
A thyner wyth i huno
Weithian fydd, a thyna fo.'

Dro yn ol, clywodd fod y gwas wedi colli ei 'gariad,' ac er mwyn ei gysuro, dechreuodd wau englyn ar yr achlysur :

'Rhy whit-what i fynd ati,—a cheisio
Ei chusan oedd Mari ;'

ond cyn iddo orffen, daeth i'w glustiau fod y llanc yn caru un arall, ac yna cloiodd yntau y pedair llinnell fel hyn :

'Un anwylach yw Neli,—
Nelo fach anwyl i fi'

Y mae ganddo yn awr ers rhai misoedd ystori 'ferr' ar waith (yr oedd yn llond copi trwchus pan welais hi ddiwethaf), ond cymerir cymaint o'i amser i fyny gan bethau eraill fel nad yw yn debyg y daw'r nofelig i ben erbyn y rhifyn nesaf o'r YMOFYNYDD, pe bae hwnnw yn ddigon mawr i'w chynnwys. Bid hynny fel y bo, ni wn i am un am-

aethwr arall yn yr ardal yn ymddifyrru mewn llenydda, ac anodd yw dyfalu pa beth sydd yn cyfrif am y duedd yma yn fy nghyfaill—ar wahan i'r ffaith fod ei dad o'i flaen yn hoff iawn o farddoni, ac yn bur fedrus yn ei ddydd fel 'gwehydd y cywydd cu.'

Nid oes gennyf fawr o gof am yr henwr hwnnw, ond clywais lawer am ei hoffter tuag at gelfyddyd y bardd, ac erys llawer o'i ganeuon ar lafar gwlad yn y cylch o hyd. Byddai yn llwyr anghofio popeth pan ddoi yr awen ato, a dywedai am dano ei hun :

'Mae 'mhen weithiau'n drwm,
Braidd gallaf ei godi ;
Heb ateb un bwm
Er teirgwaith fy holi.'

Ymddengys nad oedd yntau yn hoff o'r mesurau caeth, ac ychydig iawn o englynion a ganodd. Y mae ganddo, er hynny, un gyfres lled dda yn desgrifio fel y bu arno unwaith pan gwrddodd â damwain wrth wneud rhyw orchwyl, ac egyr fel hyn :

'Dringais yw dro o angen—a chydlais
A chodwm anniben ;
Yn y pwll, fe ddaeth i'm pen
Darfuasai dorri f'asen.'

Yn yr englyn a ganlyn, gallwn dybio mai annerch rhyw frawd o brydydd nad oedd yn hoffi *manual labour* a wneir :

'Nid hoff i'r bardd yw garddu ;—
Pr gwr yw englynu; [llawer gwell
I wehydd y cywydd cu,
Helbulus hwylio i balu.

Gan nad ymddangosodd dim o'i waith erioed mewn llyfr na chylchgrawn, difynnaf eto bennill neu ddau o'r lliaws a adawodd mewn ysgrifen ar ei ol :

'Na wisged neb gap
Os na fydd e'n ffito ;
Fe gydia fel trap
Am ben bo fe'n taro'

'Er nad oes ond greddf
Yn natur bwystfilod,
Ac nad oes un ddeddf
I rhain wedi gosod,
Mae gweld nad yw'r gwaethaf
Yn difa ei gydryw
Yn g'wilydd i'r eithaf
I hanner dynolryw.'

'Daw dydd i ymadael a'r byd,
Dydd ysgar a'i gyfoeth yn llwyr ;
Dydd ydyw na wyddis pa bryd
Fel lleidr daw fore neu hwyr ;
Dydd mawr pan gloriannerr pob dyn.
Dydd disgwyl godidog air 'Dewch';
P'ob ffugiwr pryd hynny a grŷn,
Rhag clywed 'Nid adwaen,' ac
'Ewch.'

Nid ar gyfer un eisteddfod y canai prydydd-amaethwr ddarnau o'r fath hyn ; gwnai hynny, yn unig, mi debygaf, am fod rhywbeth yn ei anian yn ei dueddu at y gorchwyl ; a phan oeddwn ers rhai blynyddau yn ol yn lloffa cynyrchion ei awen ar feysydd côf ei hen gyfoedion, deuthum i wybod fod ei dad yntau drachefn yn awenydd, a bum mor ffodus a dyfod o hyd i ddau driban swynol o'i waith, a dyma nhw :

'Mae goleu ddydd yn llawer gwell
I weld ymhell na'r nôs ;
'Co gyfle da am wlanen crys
Ar ben claw Rhys y Rhos.'

'Pan glywoch lais Ap Hywel
Yn danbed gyda'i awel,—
Ar Rôs Ymryson neu ger llaw
Bydd dranoeth wlaw yn diwel.'

Y prydydd-fugail a geir yma yn darogan y tywydd, a gresyn na fyddai rhagor o'i ddyrifau syml a llyfn ar glawr. Er na allaf ddilyn cwrs yr awen ymhellach yn ol, yr wyf wedi dangos ei bod fel aber o ddwfr yn rhedeg trwy dair cenhedlaeth, beth bynnag, o'r hen deulu athrylithgar hwn. Fel y gwelwn brinhau a gloywi o'r dwfr pan gerddom yng ngwrthol nant, felly yma hefyd gyda hylif yr awen—ceir llai, llai o swm o hono wrth fynd ymhellach, bellach yn ol, ond o ran ansawdd y mae yn hynod o bur a chroyw.

D. CLEDLYN DAVIES.

DAN STÔN.

Ni ŵyr neb anwyled ganddo yw bro mebyd hyd onis gwel trwy ddagrau hiraeth ym mro alltud, a melus yw rhoi tro trwy'r hen ardal, a chael aros ar y gamfa hon, neu eistedd ar yr hen foncyff crin acw i synfyfyrio ar y dyddiau gynt. Mor wyn heddyw yr ynt. Nid yw pob cropyn a llwyn, pob camfa a phompren, ond *hieroglyphics* bore oes, a dwg pob un o honynt ryw ddigwyddiad yn fyw i gôf. Tan y geulan draw y daliwyd brithyll—mawr yr adeg honno, beth bynnag, a than gysgod yr hen goeden yma y bu llawer ysgarmes boeth; dan ei changau praff yr ymleddid Waterlŵ pob cynnen. O wrando clywais cnul y gloch, a phwy a'i clyw heb fysio'n ddiarwybod o gofio'r canlyniadau gynt o wrthod ar ddydd cwn hela—*red letter day* ym mywyd pob plentyn ysgol.

O edrych drwy ddrws yr efail, y mae'r pentan yr un mor ddu, a'r gwreichion yr un mor wyllt, ond y mae'r hen wynebau ar goll. Wrth gerdded ar lan *penfarch* y felin dychmygaf weld y melinydd yn dod fel 'angel dinistriol,' a phlant yr ysgol fel torf o adar drudw yn chwilio lloches.

Prudd yn fynych yw gwrando'r awel yn dolefain yn nail y coed, ac ond clustfeinio clywir mewn atco leisiau câr a chydnabod yn gymhleth drwyddi. Yr oedd yna lawer man na throediwn liw nôs, a buasai'n well gennyf farw—yr adeg honno—na cherdded dros ddwy filldir o heol unig, lle dywedid i leidr pen-ffordd ymosod ar rywun hannercan mlynedd yn gynt. Cauwn fy llygaid wrth fynd heibio mynwent, oherwydd yr oedd fy nychymyg mor fyw a'm hofn cymaint. Erbyn heddyw caraf rodio 'mhlith y beddau. Lawer gwaith yr wylais o wrando'r ceiliog yn canu'n nyfnder nôs oherwydd cofio rhyw hen ofergoeliaeth. Nid wyf wedi'i gwrthbrofi eto oherwydd bu llawer o farwolaethau yn ein tŷ ni, ond ni wyddai'r ceiliog am dânynt, druan, er iddo drwy ganu'r nôs fyrhau i einioes ei hun, beth bynnag; yr oedd bob amser fel 'alarch yn canu cyn marw.

Bob tro yr âf heibio, arosaf yn ymyl hen lyn, a gwelaf yno dri'n ymgodymu ar adeg etholiad, a dychmygaf glywed llais rhyw hen wr penllwyd yn herio'r drochfa, gan ddywedyd—'Tori, ie, Tori i'r gwaelod.' Anaml iawn oeddynt *gynt* yn ein hardal ni.

Rywdro hefyd anfonwyd fi i ffeirm gyfagos i ofyn benthyg y *Journal*. Yr oeddwn i yn rhy ifanc i wybod dim am y *date*, ac ni fedrai'r hen chwaer ddarllen. Yr oedd tri chopi o'r newyddiadur yno, a ninau mewn penbleth, ond aeth yr hen chwaer dros yr anhawsder drwy'u harogli, a sawr y *print* oedd yn penderfynu dyddiad y papur.

Nid mewn gwawd, ond a llaw garedig, ac a chalon gynnes y tynnaf y darlun er gosod lliw a llun yr oes o'r tu ol i'r hen gymeriad.

Ni cheisiaf chwilio ei âch, digon i bob un o'r ardal yw'r enw—

DAN STÔN.

Nid oedd debig i neb ond efe ei hun, a phe ceisid ei ddarlunio onis gweloch ofer yw. Yr oedd wedi bod rywbryd tua dwylath o daldra, ond erbyn hyn yr oedd wedi crymu—yr oedd wedi 'tynnu ato,' chwedl y pentre. Nid oedd balchder yn agos ato. Plentyn natur oedd mewn gwirionedd, ac yr oedd ei ddillad yn sport i'r gwynt. Dim botwm ynghau byth! Gellwch gasglu felly mai golwg afler ddigon oedd arno, ond waeth hynny na rhagor yr oedd yn gymeriad ar ei ben ei hun. Nid oes gennyf gôf imi'i weled o fewn capel ond ar ŵyl diolchgarwch. Eto, cofier,

nid yw hynyna nac yma nac acw, oherwydd nid cwrdd na chapel sy'n gwneuthur dyn. Labrwr cyffredin ydoedd, dyna'i gyd. Gyda llaw, nid wyf yn cofio a oedd ofn gwaith arno, neu a oedd fel y forwyn honno yn foddlon gorwedd wrth ei ochr.

Beth bynnag am hyn, edrychem ni arno fel rhyw fath o arwr. Gwyddai, neu proffesai ei fod yn gwybod am bob brithyll yn yr afon, am bob cwningen ac ysgyfarnog. Nid oedd neb digon cyfoethog yn ein hardal ni i fagu *pheasant*. Dyna'i fywyd,—gweithio ambell getyn, mynychu'n gyson glwb y gôf, y saer a'r crydd, dilyn cwn hela o fewn pum milltir, dall ambell bysgodyn a chwningen ac ysgyfarnog, ac adrodd yr helynt o flaen tân yn nhafarn y pentref, neu ar blocyn ar bentan y gôf.

Flynyddoedd yn ol aeth i Forganwg. Yr oedd son am waith tân Dowlais yr adeg honno. Wedi bod yno ryw wythnos neu ragor, yr oedd ar y sgwar ryw brynhawn Sadwrn. O dipyn i beth aeth yn ffrae gyffredinol yno, a daliodd Dan *un* yn ei lygad. Cyfarfu a chyfaill ymhen tipyn, a gofynnodd hwnnw iddo, 'Sut y cefaist di'r *black eye* yna Dan?' 'O,' oedd yr ateb, 'os wyt ti am un, fachgen, cerdd i'r sgwar. Y ma' nhw yn eu rhannu nhw yno am ddim.' Yr oedd y *black eye* am ddim yn ormod iddo. Gadawodd Dowlais yn gynnar prynhawn Sadwrn, a cherddodd adref bob cam. *Homing pigeon* ydoedd Dan.

Dro arall, yr oedd ym medi cynhaeaf. Yr oedd y dydd yn hir a'r *forman* yn ddiflin. Cwynai Dan, ond ni feiddid dweyd wrth y ffermwr—oes y *tyrant* ydoedd mewn llawer ystyr. O'r diwedd, er boddio Dan a'r medelwyr eraill, boddlonodd un o'r fedel awgrymu'r amser i'r ffermwr, ac wrth fynd yn ol y mae'n gofyn iddo a oedd wedi prynu *almanac* y flwyddyn honno. Atebodd yr hen ffermwr yn ddifeddwl fod *almanac* y Cymro a Ffrancis Moore ganddo, 'ond paham yr wyt yn gofyn,' meddai. 'Tybio yr oeddwn,' oedd yr ateb, 'na wyddech pa amser yr ä'r haul i lawr.' Gwelodd yntau'r awgrym, a chafodd Dan, ac ereill, eu dymuniad.

* * * *

Ni wn i am ysgolion ereill ond yn ein hysgol ni yr oedd mannau cyfleus at bopeth. Os byddech am ddysgu ysmygu, yr oedd tŷ yn y pentref yn barod, a hen wraig yn ei gadw. Os byddai'r chwarae'n ddiflas, a ninnau am dipyn o gyffro, gwyddem lle i daflu carreg i ben y *zinc* er mwyn cael cwrs. Yr oedd mannau felly, ac arwr oedd y llanc a hyrddiai'r garreg

Un diwrnod yr oeddem wedi'n gollwng yn gynnar o'r ysgol, ac yr oeddem i fyny at unrhyw felldith. Ni ellid mo'r help. Yr oedd y gwr drwg megis yn ein cymell. Ar y ffordd adref mewn cae cyfagos gweithiai Dan, ac nid oedd dim am dani ond ei boeni. Gwaeddid *Fachgen* mewn llais cryglyd, gwichlyd, a dyna ddigon. Lluchiai gerryg ar ein holau. Yr oeddent yn disgyn fel *barage*, a dyna'r tro cyntaf, a'r tro olaf, gobeithio, inni glywed carreg yn chwiban wrth fynd heibio nghlust. Digon yw dywedyd yn iaith rhyfel—'Nothing to report. No casualties.'

Bu'n ddrwg gennyf droion wrth ymgomio ag ef am y tro. Nid oedd gennyf ond esgus plentyn ysgol direidus. Lawer tro wedi hyn bum yn eistedd o flaen tân yn gwrando'i storiau. Bum wedi hyn yn troi i mewn, ac yntau'n peswch ac ymladd am ei anadl. Telais fy mhwyth iddo, a chefais argraffu ei enw a'r dydd bu farw ar blât ei arch. Am wn i, dyma'r tro cyntaf inni wybod enw yr hen gymeriad gwreiddiol. Braidd ar dro oedd y llythyrennau hwyrach, fel Dan ei hunan, druan, ond gwneuthum fy ngoreu, a thybiais inni glywed ei lais garw a chryglyd yn sibrwd o'r arch—

'Fachgen! Gwnant y tro!'

* * * *

Euthum drwy'r fynwent pwyddydd. Rhodiais yn unig, a hefyd nid yn unig ymhlith y beddau. Wylais ddeigryn ar ro llawer bedd. Ac o grwydro hwnt ac yma sefais ger bedd – diaddurn ddigon. Ni ddarllenais mo'r garreg. Ni cheisiais Ni welais mohonni, canys o'm blaen mewn llythyrennau anghelfydd yr oedd dau air a ddywedent y cyfan wrthyf, ac wrth bawb a'i hadwaenai, a dyma'r ddau air—

'DAN STÔN.'

T. O. W.

PRIODASAU.

MAWRTH 23, yn Nghapel Glanrhyd (M.), plwyf Monnington, Sir Benfro, gan y Parch. D. Richards, Gweinidog, yn ngoel ei gynorthwyo gan y Parch. Lewis Williams, Capel y Bryn, ac yn ngwydd y Cofrestrydd, Mr. G. H. Mathias, Aberteifi, Mr. Simon Evans, P.A.S.I., A.A.J., mab hynaf Mr. a Mrs. Evans, Cwrt Farm, Cwrtnewydd, a Miss Justina E. Jones, merch Mr. a Mrs. Jones, Trefigin, ger Aberteifi. Yn llwyddianus a hapus y byddont.

MAWRTH 23, yn Nghapel y Wesleyaid, Llanbedr, gan y Parchn. T. Oliver, ac Arthur Thomas, ym mhresenoldeb y Cofrestrydd, unwyd mewn glân briodas, Mr. David Jones, Argraffydd, Swyddfa'r YMOFYNYDD, Llandyssul, â Miss Elizabeth Williams, Harford Row, Llanbedr. Gwyn a dedwydd fo'u byd

MARWGOFION.

HYDREF 7, 1920, yn 77 mlwydd oed, William Harries, Aelfryn, Cefncoed. Cadwodd ei holl gynheddfau meddyliol hyd y diwedd pan ddaeth at derfyn ei yrfa ddaearol. Claddwyd ei weddillion marwol yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd, ar brydnawn Llun, y 13eg o'r un mis, yng ngwydd tyrfa fawr iawn o'i gydnabod, hen ac ieuangc. Yr oedd ein hen gyfaill yn adnabyddus o fewn cylch eang, ac yn enwedig yn mysg Undodiaid Cymru. Diau fod ei fynediad ymaith yn peri bwlch mewn llawer cylch heblaw y cylch teuluaidd. Yr oedd ei nerth corphorol wedi pallu i raddau er ys rhai blynyddoedd, ond yr oedd ei ddyddordeb mewn pob peth da ac addawol yn aros yn glir a chadarn hyd y diwedd. Rhaid oedd adrodd hanes pob oedfa a digwyddiad yn yr Hen Dy Cwrdd wrtho cyn gynted ag y cymerent le, a dyma y pethau agosaf at ei galon hyd ei wythnos ddiweddaf. Ganwyd ef yn mhentref Penderyn, a symudodd i'r Cefn pan yn naw oed, ac felly bu mewn cysylltiad a'r Hen Dy Cwrdd am yn agos i 70 mlynedd. Fel llawer eraill o aelodau ein cynulleid-

fa yr oedd yn un o ddisgynyddion Shon Llywelyn, y bardd, a'r cyntaf i gael ei gladdu yn y fynwent. Gwëydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, a gwëydd fu yn gwneud celf o'i waith trwy ei oes; ac y mae yr un duedd gelfyddydol yn dilyn llinellau mwy neu lai gwahanol yn mywyd mwy nag un o'i deulu. Diau yr erys ei ddylanwad ar gynulleidfa yr Hen Dy Cwrdd ac ardal y Cefn a'r Faenor am hir amser. Bu yn arweinydd y gân ac yn Organydd am yn agos i 45 mlynedd, ac yn ysgrifenydd yr eglwys am 40 mlynedd. Arweiniodd ddwy o gymanfaoedd canu undebol Undodiaid Morganwg, sef un 1887 yn Merthyr, ac un 1904 yn Nghastellnedd. Etholwyd ef yn arweinydd dwy gymanfa undebol a rhwng-enwadol yn y Cefn, a gwnaeth ei waith yn rhagorol iawn. Bu yn oruchwyliwr dros blwyf y Faenor am 32 mlynedd, ac yn ysgrifenydd y Bwrdd Gwarcheidiol am yr un amser, ac y mae delw ei feddwl i'w weled ar fwy nag un agwedd o fywyd y plwyf. Cafodd gystudd hir a thrwm, a dioddefodd y cyfan yn dawel, yn amyneddgar, ac yn siriol hyd y diwedd. Cafodd angladd syml, ddiriwysg, a didwrw, a dyna oedd ei ddymuniad. Clywsom fod un oedd yn bresenol wedi casglu oddiwrth hyny fod William Harries wedi ymwadu a'i Undodiaeth. Tebyg fod yr un hwnw yn aros ar ei ben ei hun, a bod y cannoedd eraill oeddynt yno yn gweled teyrnged odidog i yspryd Undodiaeth yn y symlrwydd diffwdan a ddangoswyd ar yr achlysur; oblegyd clywyd gweinidog Undodol oedd yn bresenol yn dweyd, "gwyn fyd na fyddai mwy o bobl yn meddwl mor iach am angladdau a William Harries." Yr oedd ein hen gyfaill yn un o'r rhai sydd wedi mynnu gwybod rhywbeth am yr hyn y mae Undodiaeth yn aros am dano, y phwysodd yn dawel ar hyny nes a torodd ei wawr. Gofalwyd am dano yn dyner a chariadus trwy ei weddwdod o yn agos i 40 mlynedd, gan ei ferch ieuengaf, Miss Lilian Harries. Gadawodd ar ei ol ddau fab a dwy ferch, ac y maent hwythau yn feddianol ar ddeuparth o yspryd rhagorol eu tad, ac yn Undodiaid o'r Undodiaid.

HYDREF 13, 1920, yn 37 mlwydd oed, Mrs. Jones, The Laurels, Cefn. Gwraig Mr. D. Eiddil Jones, a dynes ieuangc hardd a hynaws ei theimladau ac eang ei chydymdeimlad. Claddwyd yn mynwent y Faenor ar yr 16eg o'r un mis. Yr oedd yn athrawes yn Ysgol y Cynghor, Cefn, ac yn boblogaidd iawn yn y lle, yn enwedig yn mysg plant yr ysgol. Arferai addoli yn yr Eglwys Wladol, ond gwelwyd hi amryw weithiau yn ei dyddiau olaf yn ngwasanaeth hwyrol yr Hen Dy Cwrdd, a thystiai mai da oedd bod yno. Yr oedd y syniadaeth am fywyd a ddygwyd gerbron yno yn gymorth iddi hi i wynebu galwadau yr awr, meddai; a dyna y dystiolaeth uchaf y gellir ei rhoddi i unrhyw wasanaeth crefyddol cyhoeddus byth. Gadawodd brodd a dau fab i wylo uwch ei cholled. Gorphwysed ei hyspryd mewn hedd.

CHWEFROR 19, bu farw Mrs. Gwen Jones, yn Luzerne, Pa., America, yn 65 oed. Merch ydoedd i Jenkin a Margaret Llewelyn, Pantyscawen, Aberdar, y rhai fu yn weithgar iawn dirwy ei hir oes yn yr Hen Dy Cwrdd Aberdar, a gweddw y diweddar John Jones, Tyncelyn, Llysfaen Uchaf, Sir Aberteifi. Ymfudodd y teulu i'r America oddeutu deugain mlynedd yn ol. Bu farw John yn 1891 yn dra disymwth. Hefyd cafodd ei ail fab ei ladd pan wrth ei alwedigaeth yn 1914. Y mae dau fab a merch mewn dwys alar ar ol mam dduwiol a chymdoges garedig. Nid oes yn awr ond un o deulu Pantysgawen ar ol, sef Mrs. D. O. Evans, Merthyr Tydfil.

CHWEFROR 23, Evan Morgan, High Street, Cefn. Bu ein hen gyfaill farw ar ol cystudd hir a thrwm iawn, a chladdwyd ei weddillion ar yr 28ain o'r mis yn mynwent yr Hen Dy Cwrdd. Meiswn ydoedd wrth ei alwedigaeth ac un oedd yn adnabyddus fel gweithiwr caled ar hyd ei oes. Yr oedd ef fel ei deulu yn dal cysyllt-

iad agos a'r Hen Dy Cwrdd ac yn aelod ffyddlon. Gadawodd weddw, un mab, tair o ferched ac amryw wyrion mewn galar ar ei ol.

CHWEFROR 24, yn 87 mlwydd oed Mary Jones, Rhydygwin, gynt o Cwmscawen, Llanfihangel Ystrad, gweddw y diweddar Thomas Jones, o'r un lle, yr hwn a ymadawodd a'r fuchedd hon er's tua deg mlynedd ar hugain. Cafodd ei bendithio ag iechyd da, ond yr oedd henaint wedi effeithio ar ei chyfansoddiad, a gwanaidd iawn ydoedd er's amryw flynyddau. Yn ystod ei gwendid maith cafodd bob gofal a thynerwch gan ei merch a'i mhab a drigianai gyda hi. Hynodid hi gan ddiwydrwydd a ffyddlondeb i orchwylion cartref. Gellir dweyd am dani, "ni fwytaodd fara seguryd." Yr oedd o dymher dawel ac o ysbryd heddychol, a pharai hyny ei bod yn barchus gan bawb o'i chydnabod. Yr oedd yn aelod o eglwys Rhydygwin, ond yr oedd gwendid corff wedi ei hanalluogi i fod yn bresenol yn y gwasanaethau er's rhai blynyddau. Ar ddydd ei hangladd pregethwyd yn y ty gan y Parch. L. Williams, Alltyblacca, a chymerwyd rhan gan y Parch. Conwil Evans, Rhydygwin, a'r Parch. W. Phillips. Ty'nygwndwn. Claddwyd yn mynwent eglwys y plwyf, a gwasanaethwyd yn yr eglwys ac ar lan y bedd gan y Ficer. Gadawodd ddau fab, un merch, dau frawd ac wyrion mewn galar dwys.

MAWRTH 2, yn ddau fis oed, bu farw Margaret, annwyl blentyn Rees ac Elizabeth Mary Jenkins, Fronddu ger Cribyn, o'r *Inflamation*, yn dra dirybudd, er siom a galar i'w rhieni a'r perthynasau. Nerth a gaffo'r teulu ieuanc i beidio galaru'n ormodol Claddwyd yr hyn oedd farwol o hono yng Nghribyn dydd Sadwrn dilynol, y Parch. W. Phillips, Tynygwndwn a'r Parch. D. Evans, yn gwasanaethu.

MAWRTH 9, yn 78 mlwydd oed, Evan Davies, Yr Aber, ger Cwrtnewydd. Arweiniodd yr ymadawedig fywyd hynod dawel a di-drwst, a gwnaeth ei hun yn adnabyddus yn ei gylch fel dyn gonest a di-ddichell. Gadawodd briod, dau fab, un brawd, un chwaer, ac wyrion mewn galar ar ei ol. Claddwyd y Sadwrn canlynol yn mynwent Capel y Bryn. Pregethwyd gan y Parch. L. Williams, a chymerwyd rhan gan y Parchn. J. Davies, ac E. Glyn Edwards.

MAWRTH 11, yn 54 mlwydd oed, bu farw Elizabeth Morgan, Glanmydr, ger Cribyn, ar ol cystudd maith a chaled, yn enwedig yn ystod y misoedd olaf. Merch ydoedd i'r diweddar John a Sarah Jenkins, o Rydybannau, ger yr un lle. Perthynai felly i deulu o gysylltiadau tylwythol eang ym mhlwyf Ystrad a'r cylch. Ar ei phriodas â'r diweddar David Morgan, Moelfre, aeth yno i fyw. Pan fu farw ei phriod tua naw mlynedd yn ol, ymneilltuodd o'r fferm, ac aeth i fyw i Glanmydr. Anfoddhaol iawn fu cyflwr ei hiechyd er's blynyddoedd; ond er ei phoenau yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiweddaf, parhaodd i fyned o amgylch ymron hyd y diwedd. Teimlai gryn lawer o ddiddordeb mewn materion cyhoeddus; ac am ryw dymor ym mlynyddoedd ei hieuenctid bu'naelod o Fwrdd Ysgol plwyfi Ystrad a Dihewid. Bu'n aelod yng Nghribyn a Chapelygroes er pan yn ieuanc iawn; a pharod ydoedd i wneud a allai yng nglyn a'r ddau achos. Hi oedd yr ieuengaf o deulu Rhydybannau; a chyda'i chladdedigaeth hi mae'r teulu i gyd wedi diflannu. Fel disgynyddes o'r enwog Daniel Ddu o Geredigion, etifeddodd gryn fesur o'r elfen farddol; eithr ni thalodd y sylw dyladwy i'w diwylliant; pe wedi gwneud hynny diau y byddai wedi gwneud ei hol fel barddones. Bu'n foddion i ddwyn allan argraffiad newydd a diwygiedig o "Winllan y Bardd"—cyfrol hardd; a deallaf fod cryn lawer o gopiau eto heb eu gwerthu. Gadawodd mewn hiraeth ar ei hol ddau fab, a chylch eang o berthynasau. Y mae'r ddau fab wedi ymsefydlu yng ngwasanaeth ariandai—un yn y *National Provincial*, y llall yn y *Barclay's*. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Capelygroes, y dydd Mawrth canlynol.

Gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, gyda chynorthwy'r Parch. Conwil Evans.

MAWRTH 12, wedi cystudd byr, yn 86 oed, bu farw Daniel Evans, Ordolau, Llanybyther, gynt Dolauuchaf, Llanwenog. Claddwyd y Mercher canlynol yng Nghladdfa'r teulu yn Mynwent Aberduar. Gwasanaethwyd yn y ty gan ei hen gyfoed y Parch. John Davies ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. David James, Rhydybont a'r Parch. D. C. Griffiths, Aberduar. Yr oedd yr angladd yn lluosog iawn ; ac yn arwydd amlwg o'r parch oedd i'r ymadawedig yn ei ardal. Gadawodd weddw i alaru'n ddwys ar ei ol, wedi bod yn briod am 64 o flynyddau. Bu iddynt ddeg o blant ac y mae wyth ohonynt yn fyw ac mewn amgylchiadau cysurus i gyd. Treuliodd yr ymadawedig oes ddefnyddiol iawn. Yr oedd yn ddyn gonest, geirwir a chymwynasgar. Yr oedd yn aelod gweithfawr o'r eglwys yn Alltyblacca, a theimlai ddiddordeb ynddi wedi iddo fethu bod yn bresenol yn yr addoliad. Analluogwyd y gweinidog y Parch. L. Williams i fod yn yr angladd gan afiechyd. Nodded y Nef fyddo i'r weddw a'r plant ac a'u harweinio ar hyd y ffordd sydd yn arwain i'r wlad well o'r hon ni bydd ymadael mwy.

MAWRTH 15, yn 79 mlwydd oed, Mary Jones, Tyssul Quarry, Llandyssul. Bu yr ymadawedig yn byw ym Mlaencefel, a chyn hynny yn Llwynteg, cyn symud o honi i'r lle uchod, pan wedi ei goddiweddyd gan henaint a dallineb. Yr oedd yn hannu o deulu adnabyddus Felin Clettwr a Gilfachddafydd. Cafodd ei geni yn y Cnwc ar dir y Darren. Yr oedd yn wybyddus iawn yn yr hen amser, a chanddi adgofion dyddorol o bersonau a digwyddiadau dyddiau ei hiengctyd. Tra y gallodd mynychai Pantdefaid yn gyson, ac yr oedd y lle a'r gladdfa yn anwyl yn ei golwg. Cafodd bob ymgeledd a gofal yn ystod blynyddoedd ei nychdod a'i gwendid. Y dydd Gwener dilynol claddwyd ei rhan farwol ym mynwent Pantdefaid a'r gweinidog yn gwasanaethu.

MANION AC HANESION.

BWLCHYFADFA. — Dydd Gwener, Chwefror 25, cafwyd nawn a hwyr hapus a llawen iawn yn y lle hwn. Rhoddodd teuluoedd Pantglas, Nant y Gwydde, Penlon Meinigwynion a Cwmbach, wledd ardderchog o Dê a bara brith i ni yn y prynhawn, a theimlwn yn ddiolchgar iawn iddynt am eu caredigrwydd a'u haelioni. Yn yr hwyr cafwyd cyfarfod o gystadlu mewn adrodd a chanu. Yr oedd y capel yn orlawn a phawb wrth eu bodd. Y cadeirydd oedd Mr. Benjamin Jones, Cwmbach. Clorianwyd y canu gan Mr. Herbert Lewis, o ardal Gorsgoch a'r Amrywiaeth gan Mr. David Richards, Red Lion, Bwlchyfadfa. Rhoddodd y ddau foddlonrwydd mawr. Diolch eto i roddwyr y wledd ac i'r bonedd-igesau fu'n gweini wrth y byrddau.

(Oherwydd diffyg gofod gadawyd allan nifer o Fanion ac Hanesion.)

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

BOOKS ON LIBERAL RELIGION.

— Just Published. —

A Unitarian's Thought of God. By Christopher J. Street, M.A., LL.B. Crown 8vo, 94 pp., 2s. 6d. net, paper 1s. 6d. net, postage 3d. "This little book is the result of a firm conviction that no solution is to be found for the deepest problems of life except in the thought of God and the realisation of his presence and operation in the life of man."—*Preface.*

Realities and Reconstruction. By R. Travers Herford. Crown 8vo, 152 pp., 3s. 6d. net, paper 2s 6d. net, postage 3d. "It is salutary to read these quiet, sensible chapters which hold up a high ideal, but at the same time remind us of some obstinate facts."—*Inquirer.*

The Parables of Jesus applied to Modern Life. By J. Cyril Flower. With a Foreword by Dr. L. P. Jacks. Crown 8vo., 116 pp., paper 2s. net. Mr. Flower writes as one who believes that "the time is at hand when we shall cease to chatter about the person of Christ, and when the world will catch a glimpse of the real man of Galilee, and give ear to a teaching which, like the seed growing in secret, shall germinate in the hearts of men and revolutionize our social life, our industrial order and our religion."

THE LINDSEY PRESS, 5, Essex St., Strand, London, W.C. 2.

Postage is saved by ordering through a Bookseller.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

Fruit Trees, Roses and Shrubs.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),

To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

London Joint City and Midland Bank Limited

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

S. B. Murray F. Hyde E. W. Woolley

Sudscribed Capital	.. ..	£38,116,050
Paid-up Capital	.. ..	10,859,800
Reserve Fund	.. ..	10,859,800
Deposits *(Dec. 31st, 1920.)*	..	371,841,968

Llandyssul Office: 9, Lincoln Street

Manager: T. M. JONES

Over 1500 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2